

## DAFYDD ap SIANCYN (SIENCYN) ap DAFYDD ap y CRACH (fl. tua chanol y 15ed ganrif), cefnogwr plaid y Lancastriaid, a bardd

**Enw:** Dafydd Ap Siancyn (Siencyn) Ap Dafydd Ap Y Crach

**Rhiant:** Margred ferch Rhys Gethin

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** cefnogwr plaid y Lancastriaid, a bardd

**Maes gweithgaredd:** Gwrthryfelwyr; Milwrol; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

**Awduron:** Ray Looker, Thomas Roberts

Disgynnai, ar ochr ei dad, o Marchudd ([Peniarth MS 127](#) ; [Powys Fadog](#), vi, 221), ac, ar ochr ei fam, o'r [twysog Llywelyn ap Iorwerth](#) ([Peniarth MS 127](#) (105), [Peniarth MS 129](#) (128,130); [Dwnn](#), ii, 102, 132). Margred, merch Rhys Gethin, un o gefnogwyr [Owain Glyn Dwr](#) (gweler [Lloyd, Owen Glendower](#), 66), oedd ei fam. Adroddir hanes ei gampau yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau gan [Syr John Wynn](#) yn ei [The history of the Gwydir family](#). O'i glydfan ar Garreg-y-Gwalch (ger Llanrwst) cadwodd filwyr plaid Efrog allan o gwmwd Nanconwy hyd 1468, a gwnaeth lawer ymgyrch i'r wlad oddi amgylch. Cenir ei gloddyd gan [Ieuan ap Gruffydd Leif a Thudur Penllyn](#). Er fod [Tudur](#), yn ei gywydd iddo, yn canmol medr Dafydd fel bardd, nid ers ond tri englyn o'i waith. Cyferchir [Tudur Penllyn](#) yn un o'r rhain. Ceir y ddau arall, a gyfansoddodd ar ei wely angau, yn llaw 'Syr Thomas Wiliems' ar dudalen o Cardiff MS. 7. Ychwanega [Thomas Wiliems](#) fod Dafydd, adeg ei farw, yn gwnstabl castell Conwy, a'i fod wedi gorchfygu a lladd ei ragflaenydd yn y swydd. Awgrymir yn yr englynion i Ddafydd farw fel canlynniad i dri chlwyt a dderbyniasei mewn brwydr. Priodolir iddo ddaau gywydd yn cyfarch Roger Kynaston a Morys Wyn o Foelyrch, ond amheus yw ei awduraeth o'r rhain, oherwydd ymddengys mai i gyfnod diweddarach y perthynai'r personau hynny.

### Awduron

Ray Looker

Thomas Roberts, (1885 - 1960)

### Ffynonellau

Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927), (3ydd arg.), 85-6

G. J. Williams, *Hanes plwyf Festiniog o'r cyfnod boreuaf* (Wrexham 1882), 53-4

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd ap Siencyn](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13127771](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian am ragor o wybodaeth](#).

Looker, R., & Roberts, T., (1970). DAFYDD ap SIANCYN (SIENCYN) ap DAFYDD ap y CRACH (fl. tua chanol y 15ed ganrif), cefnogwr plaid y Lancastriaid, a bardd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-DAFY-APS-1450>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government